# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 15 Tachwedd 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

# 100(v4)

## Enwebu Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

(5 munud)

Bydd y Llywydd yn gwahodd enwebiadau ar gyfer Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 17.2F.

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg - Gohiriwyd o 8 Tachwedd

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau]

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - Gohiriwyd o 8 Tachwedd

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau]

## 3 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth - Gohiriwyd tan 22 Tachwedd

## 4 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol - Gohiriwyd tan 22 Tachwedd

## 5 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**

Simon Thomas (Canolbarth a Gorllwein Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y camau a gymerir i ddiogelu anifeiliaid gwyllt yn sw y Borth, ger Aberystwyth, yn sgil marwolaeth dau o'i gathod gwyllt?

**Gofyn i Brif Weinidog Cymru**

Andrew RT Davies (Canol De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau a oedd yn ymwybodol o honiadau o fwlio o fewn Llywodraeth Cymru yn 2014, o ystyried ei ymateb i gwestiwn ysgrifenedig ym mis Tachwedd 2014 a oedd yn nodi na chafodd unrhyw honiadau eu gwneud?

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**

Jane Hutt (Bro Morgannwg): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y rhybudd gan Aston Martin ddoe y gallai ei fuddsoddiad yn Sain Tathan fod mewn perygl os na fydd cytundeb ar Brexit?

## 6 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## Cynnig i ethol Aelod i bwyllgor

(5 munud)

**NDM6569** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Julie James (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Busnes yn lle Jane Hutt (Llafur).

## 7 Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2018-19

(30 munud)

**NDM6564** Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.16:

Yn cytuno ar gyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2018-19, fel y pennir yn Nhabl 1 o "Cyllideb Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2018-19", a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 7 Tachwedd 2017 a'i bod yn cael ei hymgorffori yn y Cynnig Cyllidebol Blynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26(ii).

## 8 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Gohiriwyd o 8 Tachwedd

(60 munud)

**NDM6528**

Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)
Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)
Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)
Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru)
Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod bod anffurfio organau cenhedlu benywod yn cael ei ymarfer yn eang ledled y byd a bod tua 2,000 o fenywod a merched yng Nghymru yn byw gyda chanlyniadau anffurfio organau cenhedlu benywod.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) defnyddio pob cyfle i godi ymwybyddiaeth o'r arfer hwn;

b) annog ysgolion i drafod hyn fel rhan o'r cwricwlwm Addysg Bersonol a Chymdeithasol a hyfforddi staff;

c) codi ymwybyddiaeth o'r arfer hwn ymysg meddygon teulu a phob ymarferydd meddygol; a

d) gwneud popeth yn ei gallu i sicrhau bod y cymunedau yr effeithir arnynt fwyaf yn derbyn cymorth a chefnogaeth i fynd i'r afael â'r broblem.

**Cefnogwyd gan:**

Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)

## 9 Cyfnod Pleidleisio

## 10 Dadl Fer - Gohiriwyd o 8 Tachwedd

(30 munud)

**NDM6556** David J. Rowlands (Dwyrain De Cymru)

Camfanteisio ar fewnfudwyr i'r DU gan gangiau troseddol o fewnfudwyr.

## 11 Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Seilwaith Digidol yng Nghymru - Gohiriwyd tan 22 Tachwedd

## 12 Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig - Gohiriwyd tan 22 Tachwedd

## 13 Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig - Gohiriwyd tan 22 Tachwedd

## 14 Dadl Fer (Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)) - Gohiriwyd tan 22 Tachwedd

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 21 Tachwedd 2017